Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

15 Mehefin 2015

**Gwaith etifeddiaeth y Pwyllgor: cais am ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor yn eich portffolio**

Annwyl Weinidog

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno yn ddiweddar i gynnal adolygiad o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Fel rhan o'r gwaith etifeddol hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hymchwiliadau i bolisi a deddfwriaeth â'r bwriad o asesu effeithiau'r casgliadau a'r argymhellion a geir yn ein hadroddiadau amrywiol.

I gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn ein hadroddiadau ar y Cynnydd o ran cydweithio mewn llywodraeth leol a Diogelwch Cymunedol yng Nghymru.

Yn ogystal, byddem yn hoffi i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu darpariaethau'r Deddfau canlynol:

- Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,
- Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a
- Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 24 Gorffennaf.

Yn dilyn hyn, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar yn gynnar yn nhymor yr hydref er mwyn helpu i lywio ein gwaith etifeddiaeth. Rwyf wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i wneud y trefniadau ymarferol.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**